

Ein Byd

Darlleniad: Genesis 1

‘Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a’r ddaear.’

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sylweddolwn heddiw mai dy ofal a’th gynhaliaeth sydd wedi ein cadw hyd y munudau hyn. Er inni grwydro a throi cefn a’th anwybyddu lawer gwaith, ac er inni fod yn y fan hyn o’r blaen, fe deimlwn yn awr dy gariad yn ein cofleidio a’th freichiau tragwyddol yn ein cynnal.

Am hynny, Arglwydd, gad inni unwaith eto gael yma gymdeithas â thydi, fel y bydd y munudau hyn yn funudau o weld newydd ac o adnabod llewyrch yn hanes pob un ohonom.

Diolchwn i ti yn arbennig heddiw, Arglwydd, am dy holl ddaioni tuag atom. O’n cylch ym mhob man fe welwn dy fendithion a sylweddolwn gymaint y dibynnwn arnat. Nid damwain yw hyfrydwch dy fyd di, ac nid camgymeriad yn rhaglen y bydysawd yw ein bywydau ninnau. Ond yn hytrach fe’n gosodaist mewn byd a rhoi ynddo holl fendithion dy ragluniaeth at ein gwasanaeth.

Maddau i ni felly ein bod ni mor aml wedi camddefnyddio dy roddion, wedi pentyrru cymaint ar gyfer ein hunain er inni wybod am rai oedd mewn angen yn ein hymyl.

Clodforwn dy enw, O! Dduw, am fentro ein gwneuthur yn greaduriaid a all dy dderbyn neu dy wrthod. Arglwydd, diolchwn am y rhyddid hwnnw ac am dy drugaredd yn ein dioddef er gwaetha’n gwrthryfel.

Heddiw, os yw’n bosibl, dwg ein calonnau yn ôl atat, a gwna ni unwaith eto’n bobl a fydd yn llwyr ddibynnol arnat, oherwydd os nad ymdeimlwn ni â’r ddibyniaeth honno, ni ddeuwn byth atat.

Maddau inni am bwysu ar ein golud ein hunain mor aml, am

ymddiried yn ein heiddo a'n hadnoddau gan fod yn ddibris o'th bethau di. Argyhoedda ni na allwn ond bodoli hebot, ac nad yw'r bywyd sy'n fywyd yn wir ond yn bosibl mewn perthynas â thi. Gad i ni bob dydd dreiddio fwyfwy i'r berthynas yna fel y try pethau'r byd, i ni, yn bethau'r bywyd.

Cofiwn gerbron dy orsedd hefyd, Arglwydd, am bawb nad ydynt heddiw yn gyfrannog o'n golud ni. Mewn sawl gwlad mae dy blant heddiw mewn angen ac yn dioddef newyn neu ryfel neu effeithiau trychineb naturiol. Beth bynnag fo'u hargyfyngau, bydd di gyda hwy a dyro yn ein calonnau ninnau yr awydd i'w cynorthwyo. Oherwydd fe wyddom ni, Arglwydd, nad oes gennyt ti ddwylo, nad oes gennyt ti weithwyr ar wahân i ni. Defnyddia ni, felly, yng ngwaith dy deyrnas a dyro yn ein calonnau y gras i gyflawni dy waith.

Gweddiwn hefyd, Arglwydd, dros y rhai sy'n peri dioddef a thorcalon i'w cyd-ddynion. Fe wyddom ni mai creaduriaid hunanol ydym, O! Dduw, ond gwyddom hefyd y gallwn ni gael ein gwednewid nes y byddwn fel tydi. Lle bynnag y bo trachwant heddiw, diffodd y nwyd, O! Dad; lle bynnag y bo hunanoldeb, diwalla'r angen; a lle bynnag y bo dynion a merched yn sathru ei gilydd ar lawr, bydded heddwch yn y canol. Arwain dy blant o bob lliw a llun a chenedl atat dy hun a dyro i'r teulu ar y llawr brofiad o dangnefedd y lliaws yn y nefoedd.

Yn olaf, Arglwydd, fe weddiwn drosom ein hunain yn y dyddiau hyn. Yng nghanol ein digonedd cadw ni rhag syrthio i afael materoliaeth, ac yng nghanol seciwlariaeth ein cyfnod argraffa ar ein calonnau mai pobl sydd bwysicaf yn y diwedd. Dysg ni bob dydd i estyn llaw i dderbyn gennyt ti fel y cawn y gras i rannu dy fendithion ar y ddaear.

Os oes unrhyw un yn wael heddiw, bydd di'n feddyg, O! Dad; os oes unrhyw un yn llesg, bydd yn gynhaliwr; lle mae gofalon y byd yn pwyso'n drwm, boed i'th efengyl lewyrchu yn y tywyllwch, ac yng nghanol galar, dyro'r tangnefedd na all y byd ei amgyffred. Er mwyn dy enw. Amen.

Elwyn Richards